

## Tasg 3

# Cyngor

Trafodwch y cwestiynau yma a gwnewch nodiadau wrth i chi siarad.

- Beth mae Jo yn ei wneud yn anghywir yn y darn hwn?
- Mae siarad ar-lein yn gallu bod yn llawer o hwyl, ond mae'n gallu bod yn beryglus hefyd. Pam?
- Sut gallwch chi wneud yn siŵr eich bod chi'n aros yn ddiogel pan fyddwch chi ar-lein? Trafodwch hyn mewn grŵp i ddechrau, yna edrychwch ar y wefan yma am fwy o wybodaeth ac er mwyn gweld ydy'ch syniadau chi ar y wefan yma.

<http://www.pembrokeshireyouthzone.co.uk/content.asp?Language=CYM&nav=6,222>

Os oes mwy o wybodaeth ar y wefan yma nag sydd gennych chi, gwnewch nodiadau.

2. Rydych chi'n mynd i wneud taflen sy'n rhoi cyngor i bobl ifanc ar sut i aros yn ddiogel ar-lein. Gallwch chi ddilyn y drefn yma os ydych chi eisiau:

	<ul style="list-style-type: none"><li>← Teitl y daflen</li><li>← Is-deitl (eglwurwch yn fyr (un llinell efallai) beth mae'r daflen yn sôn amdano, e.e. Sut i ...)</li><li>← Cyflwyniad: dweud pam mae siarad ar-lein yn gallu bod yn hwyl.</li><li>← Sôn am y peryglon</li><li>← Rhoi cyngor</li> <li>← Cloi'n dda, e.e.</li></ul> <p>Os dilynwch chi'r cyngor yma, byddwch chi'n siŵr o aros yn ddiogel - a chael llawer o hwyl.</p> <p>Mwynhewch.</p>
--	---